

## JONES, EDWARD (1641 - 1703), esgob Llanelwy

**Enw:** Edward Jones  
**Dyddiad geni:** 1641  
**Dyddiad marw:** 1703  
**Rhiant:** Sarah Jones  
**Rhiant:** Richard Jones  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** esgob Llanelwy  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd  
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Ganwyd ym mis Gorffennaf 1641 yn Llwyn Rhirid, Ffordun, Maldwyn, yn fab i Richard a Sarah Jones. O Ysgol Westminster aeth yn 1661 i Goleg y Drindod yng Nghaergrawnt, graddiodd yn 1664, ac etholwyd ef yn gymrawd yn 1667. Bu'n athro ar ysgol yn Kilkenny, a Jonathan Swift yn un o'i ddisgyblion; penodwyd ef yn ganon yn Ossory, yn ddeon Lismore (1678), ac yn esgob Cloyne (1683); ond yn 1692 cafodd esgobaeth Llanelwy, yn olynydd i **William Lloyd**. ' Llwgr - llac - gorthrymus ' yw'r disgrifiad cryno a roddir o'i ymdrin â'i esgobaeth yno. Aeth yn ormod i'w oddef; yn 1697 achwynodd ei glerigwyr arno wrth archesgob Caergaint. Gwyswyd ef o flaen llys yr archesgob yn 1698, ond llwyddodd ei gefnogwyr i ohirio'r prawr hyd 1700. Yn 1701 amddifadwyd ef o'i swydd (ac o'i dâl) 'am chwe mis - a mwy, hyd oni wna'i iawn,' ac nid cyn 1702 yr adferwyd ef. Bu farw 10 Mai 1703.

### Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

### Ffynonellau

*Oxford Dictionary of National Biography*

Venn, *Alumni Cantabrigienses*

R. Williams, *Montgomeryshire Worthies* (1894)

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q5343821

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfeyrdiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Jenkins, R. T., (1953). JONES, EDWARD (1641 - 1703), esgob Llanelwy. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-JONE-EDW-1641>

Copy

Preifatrwydd a Chwcis  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Ysgrifeddiadau  
Llywodraeth Cymru  
Copied by  
Welsh Government